

CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL



Cofnodion Cyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN**
a gynhaliwyd mewn modd hybrid nos Lun 26 o Fedi 2022 am 7:00pm
yn Yr Hen Lys ac arlein drwy Zoom.

YN BRESENNOL: Cynghorydd Menna Jones (Maer),
Cynghorwyr Stephen Beach, Oliver Bradley-Hughes, Mike van der Eijk,
Christine Ellis, Gavin Harris, Dafydd Hughes, Rosie Hughes-Anderson,
Ian Lewney, Jabez Redfern Oakes, Lisa Thomas, Anne Roberts, Rachel
Ryland a Heather Williams.

Hefyd Cynghorwyr Sir Lleol: Bobby Feeley ac Emrys Wynne
Hefyd Rhingyll Rich Evans ar gyfer eitem 3 'Plismona Cymunedol Lleol'
(*cofnod 81*).

YN BRESENNOL: Siân Clark – Clerc y Dref
Kate Marcus – Dirprwy Glerc Rhuthin
Marian Rees - Cyfieithydd

CROESO

Croesawyd y Maer pawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Dywedodd y Cyng Jones ei bod wedi bod yn haf prysur lle cynhaliwyd llawer mwy o weithgareddau a digwyddiadau; roedd basgedi crog y dref wedi ychwanegu lliw a bywiogrwydd a diolchwyd i J&C Brimble am eu gwaith yn dyfrio'r planwyr, yn enwedig yn y tywydd poeth. Gyda dyfodiad yr hydref, roedd nifer o gymdeithasau a chlybiau yn ail cychwyn neu'n ail sefydlu eu gweithgareddau, gofynnwyd i'r aelodau gefnogi'r rhain, os oedd modd. Dywedodd y Maer fod busnesau newydd yn agor yn y dref, tra bod eraill yn cau neu'n newid dwylo; dymunwyd yn dda i bawb.

79. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Sir Huw Hilditch-Roberts.

80. DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

81. PLISMONA CYMUNEDOL LLEOL

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i adroddiad gan y Rhingyll Rich Evans, a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod, a oedd yn amlinellu blaenoriaethau presennol ardaloedd plismona a blaenoriaethau lleol. Tynnodd y Rhingyll Rich Evans sylw at bwyntiau perthnasol ac adroddodd: na adroddwyd unrhyw droseddau difrifol yn y dref dros y misoedd diwethaf; bod gyrru gwrthgymdeithasol wedi bod yn ffocws i'r heddlu gyda rhybuddion a59 wedi'u cyhoeddi a cheir wedi eu hatal; na fu unrhyw broblemau o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol ymhlith pobl ifanc dros yr haf; bu cynnydd bach mewn siopladrad, gyda drwgdybiwr wedi ei nodi; byddai'r heddlu'n rhoi sylw i ddigwyddiadau (e.e. Calan Gaeaf a noson tân gwyllt) ac yn gweithio gydag eraill (PubWatch, tîm trwyddedu) yn y cyfnod cyn y Nadolig. Croesawodd y Cynghorwyr Tref yr adroddiad a chanmolwyd gwaith y tîm plismona lleol. Gan ymateb i gwestiynau penodol ynghylch pa

ysgolion a blynyddoedd ysgol oedd wedi cael cyfle i weld 'Olivia's Story', ffilm diogelwch ffyrdd wedi'i hanelu at bobl ifanc yn eu harddegau, dywedodd y Rhingyll Evans y byddai'n cadarnhau'r wybodaeth hon yn dilyn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: *nodi'r adroddiad ysgrifenedig a'r adborth gan y Rhingyll Rich Evans ar blismona cymunedol lleol.*

82. ADRODDIAD Y MAER

Roedd adroddiad y Maer wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw.

PENDERFYNWYD: *nodi cynnwys Adroddiad y Maer.*

83. ADRODDIADAU'R AELODAU

Roedd Adroddiad yr Aelodau wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw a diolchwyd i bawb am eu gweithgareddau ers y cyfarfod diwethaf. Yn ychwanegol:

- Adroddodd y Cyng Mike van der Eijk ar weithgareddau yn ymwneud â hinsawdd a materion ecolegol gan gynnwys: y Caffi Atgyweirio; Bws Benthg; ReSource Rhuthun; COP 27 a oedd i'w gynnal rhwng 8-18 Tachwedd 2022; Ymgyrch 'Cynnes y Gaeaf Hwn' Climate Cymru.
- Cododd y Cyng Dafydd Hughes y mater o ddiffyg blodau gwyllt yn rhai o'r safleoedd a neilltuwyd ar gyfer prosiect dolydd blodau gwyllt Cyngor Sir Ddinbych, ac yn eu lle bu glaswellt hir. Nododd yr aelodau, er bod yr haf wedi bod yn eithriadol o ran y gwres a diffyg glaw, bod sylwadau wedi bod am rai o ymylon a chylchfannau'r dref yn anhaclus oherwydd diffyg torri gwair; roedd yn ymddangos bod trefi eraill wedi elwa o fwy o sylw gan y Cyngor Sir. Dywedodd y Cyng Sir Emrys Wynne y byddai nifer ac amrywiaeth y blodau gwyllt yn parhau i ddatblygu dros dair blynedd a bod y prosiect dolydd blodau gwyllt yn bwysig i gefnogi gwenyn, peillwyr eraill a'r ecoleg yn ehangach.

PENDERFYNWYD: *nodi cynnwys Adroddiadau'r Aelodau.*

84. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR LLEOL

Rhoddodd y Cyngorwyr Sir a oedd yn bresennol ddiweddiariad llafar ar y pynciau canlynol: prosiectau ail-wynebu ffyrdd o amgylch y dref; cwynion am or-ddatblygiad o amgylch Bryn Goodman a'r posibilrwydd o fabwysiadu'r ffordd; datblygu Cynllun Corfforaethol y Cyngor Sir; yr ailstrwythuro mewnol oedd ar fin digwydd; fel Aelod Cabinet, roedd y Cyngorwyr Wynne wedi ymweld â holl lyfrgelloedd y sir, gan gynnwys un Rhuthun; byddai gwaith yn cael ei gwblhau ar Cwningar y Castell yr wythnos nesaf; roedd y Cyng. Feeley a Wynne wedi mynychu Cae Ddôl gyda'r Pennaeth Gwasanaeth yn ddiweddar ac amlygodd fod y llyn, o ystyried lefel y dwr, angen sylw. Pwysleisiodd aelodau'r Cyngor Tref yr angen dybryd i roi sylw i'r llyn yng Nghae Ddôl a'r ardaloedd cyfagos a'u tacluso er budd trigolion ac ymwelwyr, yn enwedig o ystyried y cyllid sylweddol a ddarperir gan y Cyngor Tref yn y gorffennol.

PENDERFYNWYD: *nodi cynnwys Adroddiad llafar y Cyngorwyr Sir Lleol.*

85. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *cadarnhau cofnodion y cyfarfod arferol a gynhaliwyd ar 11 o Orffennaf 2022 fel cofnod cywir.*

86. MATERION YN CODI

Dim.

87. PWYLLGOR PWERAU BRYD

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i gofnodion y Pwyllgor Pwerau Bryd a gynhaliwyd ar 15 o Awst 2022.

PENDERFYNWYD: *cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Pwerau Brys a gynhaliwyd ar 15 o Awst 2022.*

88. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 o Fedi 2022.

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 20 o Fedi 2022.*

89. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Bu i'r Aelodau ystyried cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 o Fedi 2022.

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 20 o Fedi 2022.*

90. COFNODION PWYLLGOR RHEOLI YR HEN LYS

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i gofnodion Pwyllgor Rheoli Yr Hen Lys a gynhaliwyd ar 6 o Fedi 2022.

PENDERFYNWYD: *derbyn cofnodion Pwyllgor Rheoli Yr Hen Lys a gynhaliwyd ar 6 o Fedi 2022.*

91. CYFETHOL I GYNGOR TREF RHUTHUN

Derbyniwyd dau ddatganiad o ddi-ddordeb ar gyfer sedd wag y Cyngor Tref yn dilyn yr hysbysiad cyhoeddus o gyfethol; roedd y ddau gais wedi'u dosbarthu i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Dywedodd Clerc y Dref wrth yr Aelodau am y broses bleidleisio, a fyddai'n cael ei chynnal drwy bleidlais cudd, gyda'r pleidleisiau'n cael eu cyfrif gan Clerc y Dref a Dirprwy Clerc y Dref. Hysbyswyd yr Aelodau o ganlyniad y bleidlais gan y Maer.

PENDERFYNWYD: *bod Peter Daniels yn cael ei gyfethol yn aelod o Gyngor Tref Rhuthun.*

92. MENTER 'CO-WORK LOCAL' / CYD-WEITHIO LLEOL

Rhoddodd y Cyngor Tref ystyriaeth i ddau gynnig fel yr argymhellwyd gan Bwyllgor Rheoli'r Hen Lys (PRhYHL). Roedd adroddiad wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw a oedd yn rhoi cyd-destun a darluniau am y cynigion.

- (i) Gweithio mewn partneriaeth â 'Co-Work Local', menter ddielw, i ddarparu gofod cydweithio yn yr Hen Lys am gyfnod prawf cychwynnol o chwe mis gyda grant cofrestru o £5,000 yn daladwy i Gyngor Tref Rhuthun; a
- (ii) Bod Clerc y Dref a Dirprwy Clerc y Dref/Rheolwr YHL yn cael eu hadleoli o'r ardal mesanîn i'r ystafell arddangosfa manwerthu ar lefel mynediad Yr Hen Lys er mwyn galluogi preifatrwydd pan fo angen.

Yn gyffredinol, roedd yr aelodau'n cefnogi'r cynnig i weithio mewn partneriaeth â Co-Work Local am gyfnod prawf cychwynnol o chwe mis, er y pwysleisiwyd bod angen rheoli'r fenter yn ofalus er mwyn peidio ag effeithio'n andwyol nac amharu ar waith y Cyngor Tref a'i staff. Awgrymwyd, os caiff ei gymeradwyo, y dylai'r PRhYHL dderbyn adroddiad misol yn darparu data defnydd, cyllid a data arall i hysbysu'r Pwyllgor am gynnydd y fenter.

Rhoddwyd sicrwydd y byddai cyflwyno 'Co-Work Local' o fewn Yr Hen Lys yn gweithio o amgylch gweithgareddau arferol y Cyngor Tref a'r llogwyr. Nid oedd cytundeb drafft wedi'i dderbyn eto i'w adolygu. Cynigiwyd ac eiliwyd, yn amodol ar drafodaethau ar y cytundeb drafft gan gynrychiolwyr y Cyngor Tref, ac unrhyw fewnbwn cyfreithiol y byddai angen, i gytuno i gynnal prawf o chwe mis gyda 'Co-Work Local' ar gyfer darparu gofod cydweithio yn Yr Hen

Lys. PRhYHL i dderbyn adroddiadau cynnydd misol.

Cynigiwyd ac eiliwyd hefyd bod Clerc y Dref a Dirprwy Glerc y Dref/Rheolwr TOC yn cael eu hadleoli o'r ardal mesanîn i'r ystafell arddangosfa manwerthu ar lefel mynediad Yr Hen Lys er mwyn galluogi preifatrwydd pan fo angen.

PENDERFYNWYD:

(i) yn amodol ar drafodaethau ar y cytundeb drafft gan gynrychiolwyr y Cyngor Tref, ac unrhyw fewnbwn cyfreithiol sy'n ofynnol, y dylid cytuno i gynnal treial chwe mis gyda Co-Work Local ar gyfer darparu gofod gweithio cydweithredol yn y Ganolfan. Hen Lys. TOCMC i dderbyn adroddiadau cynnydd misol.

(ii) bod Clerc y Dref a Dirprwy Glerc y Dref/Rheolwr TOC yn cael eu hadleoli o'r ardal mesanîn i'r ystafell arddangosfa manwerthu ar lefel mynediad Yr Hen Lys er mwyn galluogi preifatrwydd pan fo angen.

93. FELODROM AWYR AGORED GOGLEDD CYMRU

Roedd diweddariad rhanddeiliaid ar Felodrom Awyr Agored Gogledd Cymru, fel y'i rhyddhawyd gan y Bwrdd Prosiect, dan arweiniad Hamdden Sir Ddinbych Cyf (DLL), wedi'i ddisbarthu i'r Aelodau ymlaen llaw. Amlinellodd y Cynghorydd Harris, cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y Bwrdd Prosiect, mai ffocws presennol DLL a'r Tîm Datblygu oedd deall y gofynion ynghylch dyluniad a chost y prosiect; byddai cyfnodau dylunio a chynllunio manylach yn arwain at ymgynghoriad cyhoeddus maes o law. Rhannodd y Cyng Harris ei brofiad diweddar o ymweld â Felodrom Herne Hill yn Ne Llundain a'r amrywiol weithgareddau a grwpiau a gefnogwyd yn y lleoliad.

PENDERFYNWYD: *nodi'r diweddariad a ddarparwyd ar Felodrom Awyr Agored Gogledd Cymru.*

94. Y SIR DDINBYCH A GAREM

Bu Cynghorwyr Tref yn ystyried naw amcan drafft Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 'Y Sir Ddinbych a Garem 2022 i 2027' a ddatblygwyd mewn ymateb i'r gofyniad i Gynghorau yng Nghymru gael Amcanion Llesiant sy'n cefnogi cynaliadwyedd hirdymor eu cymunedau, ar gyfer y budd cenedlaethau'r dyfodol. Roedd y Cyngor Tref wedi ymateb i ddrafft blaenorol a ddisbarthwyd yng ngwanwyn 2022. Y naw amcan drafft dan ystyriaeth oedd:

1. Sir Ddinbych sydd â thai o safon uchel sy'n bodloni anghenion pobl
2. Sir Ddinbych lewyrchus.
3. Sir Ddinbych sy'n ofalgar, iachach a hapusach.
4. Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu.
5. Sir Ddinbych sydd â gwell cysylltiadau.
6. Sir Ddinbych sy'n fwy gwyrdd.
7. Sir Ddinbych decach a mwy cyfartal.
8. Sir Ddinbych â diwylliant bywiog ble mae'r Gymraeg yn ffynnu.
9. Cyngor sy'n cael ei redeg yn dda ac uchel ei berfformiad.

Roedd yr aelodau'n gefnogol i'r amcanion fel y'u hamlinellwyd gan nodi cyd-ddibyniaeth llawer o'r amcanion ar ei gilydd i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor cymunedau ac er budd cenedlaethau'r dyfodol.

PENDERFYNWYD: *cefnogi'r naw amcan drafft ar gyfer 'Y Sir Ddinbych a Garem 2022-2027'.*

95. CYNLLUN LLESIANT DRAFFT CONWY A SIR DDINBYCH

Rhoddyd ystyriaeth i Gynllun Llesiant drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Conwy a Sir Ddinbych 2023-2028, a oedd yn canolbwyntio ar wneud Conwy a Sir Ddinbych yn lle mwy cyfartal gyda llai o amddifadedd. Cynigiwyd ac eiliwyd bod y Pwyllgor Craffu Dogfennau

yn cael ei drefnu i ystyried y Cynllun Llesiant drafft yn fwy manwl a rhoi sylwadau.

PENDERFYNWYD: *trefnu cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Dogfennau i ystyried y cynllun Llesiant drafft a rhoi sylwadau.*

96. CYNRYCHIOLAETH CYNGOR TREF AR GYRFF ALLANOL 2022-2023

Gofynnwyd i'r aelodau adolygu a diweddarau rhestr cynrychiolaeth y Cyngor Tref ar gyrff allanol. Mae rhestr gynrychiolaeth wedi'i diweddarau ar gyrff allanol ar gyfer 2022-23 wedi'i hatodi i'r cofnodion.

PENDERFYNWYD: *nodi'r gynrychiolaeth ar gyrff allanol a chylchredeg y manylion diweddaraf yn y cyfarfod nesaf ac i'r Clerc hysbysu'r sefydliadau/cyrff perthnasol.*

97. DYDDIADAU CYFARFODYDD AR GYFER 2023

Roedd y dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor Tref a Phwyllgorau ar gyfer 2023 wedi'u dosbarthu ymlaen llaw.

PENDERFYNWYD: *cytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd y Cyngor Tref a Phwyllgorau ar gyfer 2023.*

98. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL

Bu'r aelodau'n ystyried cais gan Cymdeithas Gymunedol Llanfwrog CIO am £1,500 i brynu 6 mainc. O ystyried y cyhoeddiad disgwylidig ynghylch y cais i'r gronfa Ffyniant Bro, a oedd yn cynnwys manau gwyrdd, awgrymwyd gohirio'r cais hyd nes y byddai cyhoeddiad wedi'i wneud.

PENDERFYNWYD: *gohirio ystyried cais gan Cymdeithas Gymunedol Llanfwrog CIO hyd nes y bydd cyhoeddiad wedi'i wneud ar gais i Gronfa Ffyniant Bro.*

99. DATGANIAD ARIANNOL

Derbyniwyd ac ystyriwyd y datganiadau ariannol ar gyfer y cyfnodau yn diweddu 31 o Orffennaf a 31 Awst 2022, gan yr Aelodau.

PENDERFYNWYD: *derbyn y datganiadau ariannol am y cyfnodau yn diweddu 31 o Orffennaf a 31 Awst 2022.*

100. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD: *cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:*

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

OB	Hill & Roberts	Gwasanaeth cyfrifo a TWE – 08/2022 a 09/2022	*	£240.00
			*	£240.00
OB	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd ym mis Gorffennaf	*	£180.00
OB	Llanfwrog CIC	Gwaith torri glaswellt - Medi 2022		£425.34
OB	J&C Brimble	Dyfrio planwyr – Awst 2022	*	£990.00
OB	Blachere	Estyniad o flwyddyn ar logi motiffau goleuadau Nadolig	*	£3,789.25
OB	Fineline	Printio Tystysgrifau		£14.39
OB	Cllr. Menna Jones	Lwfans Maer – rhandaliad cyntaf		£600.00
OB	Cllr Anne Roberts	Lwfans y Dirprwy Faer – rhandaliad cyntaf		£150.00
OB	BT	Costau ffon a'r rhyngwyd – Awst 2022 a Medi 2022	*	£99.68
			*	£99.68
OB	Sian Clark	Ad-daliad: Microsoft 365 Awst 2022 a Medi 2022	*	£18.96
				£18.96

O gyfrif yr Hen Lys

OB	Denbighshire CC	Treth Annomestigs (8fed o 10 taliad)		£524.00
OB	Kate Harcus	Ad-daliad – Blwch casglu arian i'r Hen Lys	*	£40.78
OB	Kate Harcus	Ad-daliad – Bagiau Glanweithdra a blychau ar gyfer Yr Hen Lys	*	£73.19

(Mae'r eitemau wedi'u dynodi gyda * uchod yn cynnwys TAW adferadwy)

101. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: cadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar 24 o Hydref 2022 am 7.00. p.m.

102. GWAHARDDIAD Y WASG A'R CYHOEDD

Cynigiodd y Cadeirydd, ac fe'i eiliwyd, y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu, fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. (fel yr amlinellir ym mharagraff 3: Gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno).

103. FELODROM AWYR AGORED GOGLEDD CYMRU

Hysbysodd y Cynghorydd Gavin Harris, cynrychiolydd y Cyngor Tref ar Fwrdd Rheoli Prosiect Strategol Felodrom Rhuthun y Cyngor Tref am y cynnydd i sefydlu cytundeb partneriaeth pwrpasol rhwng Cyngor Tref Rhuthun a'r Bwrdd Prosiect.